

# YR AELOD CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU

**DYDD MAWRTH, 15 AWST 2023**

**PRESENNOL** Cynghorydd P.M. Hughes (Cadeirydd)

**Hefyd yn bresennol:**

P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)

A Clarke, Partner Busnes Arweiniol (AD)

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.18 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. DIWEDDARIAD POLISI DISWYDDO.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried Polisi a Gweithdrefn Dileu Swyddi diwygiedig arfaethedig y Cyngor a oedd wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r gofynion statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelu rhag Dileu Swyddi (Beichiogrwydd ac Absenoldeb Teuluol) 2023.

Daeth y Ddeddf i rym ar 24 Gorffennaf 2023, a darparodd reoliadau diogelu o ran dileu swyddi a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr sy'n ystyried dileu swydd roi'r cynnig cyntaf ar gyfer swydd wag addas arall i weithiwr ar absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir, os oes swydd wag addas yn bodoli. Byddai'r mesurau diogelu o ran dileu swyddi yn berthnasol o'r adeg y rhoddodd gweithiwr wybod i'r cyflogwr am feichiogrwydd, tan chwe mis ar ôl dychwelyd o absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r newidiadau statudol rhagnodedig a wnaed i Bolisi a Gweithdrefn Dileu Swyddi'r Cyngor.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf